CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033

## Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Atodiadau

## Ymgynghoriad Strategol a Ffefrir 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Atodiad 1: Fframwaith Diweddaredig** | **1** |
| **Atodiad 2: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau Perthnasol** | **25** |
| **Atodiad 3: Asesiadau Polisi** | **41** |
| **Atodiad 4: Gwahoddedigion i Weithgor Cynaliadwyedd Ceredigion** | **134** |
| **Atodiad 5: Gwybodaeth Sylfaenol** | **135** |
| **Geirfa** | **139** |

# Atodiad 1: Fframwaith Diweddaredig

**Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd diweddaredig ac amcanion arfaethedig a dangosyddion posibl ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol**

**Cyngor Sir Ceredigion yn dilyn ymgynghoriad ar yr adroddiad cwmpasu.**

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| **Testun 1: Ffactorau hinsoddol (datblygu cynaliadwy, newid hinsawdd ac arfordirol)** | | |
| • Ymhlith effeithiau sylweddol newid hinsawdd yng Nghymru, mae: cynnydd yn lefel y môr, hafau poethach a sychach, gaeafau gwlypach a mwynach, mwy o achosion o dymheredd eithafol, stormydd amlach a dwysach, erydu arfordirol, colli cynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau posibl yn y dirwedd, prinder dŵr yn yr haf a mwy o achosion o lif isel mewn afonydd, a mwy o anghysur thermol mewn adeiladau.<br>• Angen addasu i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd leol a byd-eang.<br>• Mae cyfleoedd i ail-alinio'r arfordir dan reolaeth ar aber afon Dyfi ac afon Teifi. | 1a) Lleihau'r achosion a rheoli effeithiau newid hinsawdd (gan gynnwys newid arfordirol).<br><br>1b) Sicrhau bod mesurau digonol ar waith i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. | • Allyriadau blynyddol nwyon tŷ gwydr basged (fesul sector) (Data Ychwanegol); <https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-2016><br>• Ôl troed ecolegol byd-eang Ceredigion; <http://gov.wales/docs/desh/publications/150724-ecological-footprint-of-wales-report-en.pdf><br>• Nifer y datblygiadau masnachol neu ddatblygiadau perthnasol eraill (unedau a chyfran) sydd ag arwynebedd o 1,000m2/1ha neu fwy sy'n cyflawni safon ragorol BREEAM (Cyngor Sir Ceredigion / AMB); |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae ardaloedd o'r parth arfordirol mewn perygl o newid arfordirol fel y'i nodir gan Gynllun Rheoli Traethlin 2. | | • Capasiti MW datblygiadau ynni adnewyddadwy a osodwyd ac a gymeradwywyd (Cyngor Sir Ceredigion / AMB);<br>• Defnydd domestig o ynni. |
| **Testun 1: Ffactorau hinsoddol (llifogydd)** | | |
| • Mae 3,726 eiddo mewn ardaloedd o rybudd llifogydd yn y sir.<br>• Cafodd tri achos o lifogydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar effaith ar y sir – llifogydd gogledd Ceredigion ym mis Mehefin 2012, stormydd llanwol ym mis Ionawr 2014, a llifogydd de Ceredigion ym mis Hydref 2018.<br>• Mae codi ymwybyddiaeth y gymuned o'r perygl o lifogydd arfordirol ac afonol yn bwysig wrth ddarbwyllo adeiledd a datblygiadau eraill rhag digwydd mewn ardaloedd o berygl.<br>• Mae'n bosibl y bydd angen symud adeiledd, gan gynnwys rhannau o Lwybr Arfordir Ceredigion, mewn ymateb i'r perygl cynyddol o lifogydd.<br>• Mwy o bwysau ar systemau carthffosiaeth ac mae diffyg seilwaith draenio mewn rhai rhannau. | 1c) Lleihau'r perygl o lifogydd. | • Swm y datblygiad a ganiateir yn ardaloedd o orlifdir C1 ac C2 fel y'u diffinnir gan TAN15 (Cyngor Ceredigion / AMB)<br>• Swm y datblygiad preswyl newydd (unedau) a ganiateir gydag SDCau (Cyngor Ceredigion / AMB) (Yn unol ag atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2017) (Mwy nag un annedd neu dros 100m$^2$.)<br>• Swm y datblygiad masnachol newydd (unedau) sydd ag arwynebedd sy'n fwy na 500m$^2$ a ganiateir gydag SDCau (Cyngor Ceredigion / AMB) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| **Testun 2: Pridd (diogelu'r amgylchedd)** | | |
| • Mae ychydig iawn o dir amaethyddol o ansawdd uchel (graddau 1–3a) yng Ngheredigion.<br>• Mae Ceredigion yn cynnal yr ardal fwyaf o fawn yn iseldiroedd Cymru ynghyd ag ardaloedd sylweddol o fawn ucheldirol ym Mynyddoedd Cambria.<br>• Mae angen diogelu a gwella ein storfeydd carbon. | 2a) Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a swm y pridd a'r mawn. | • Swm y datblygiadau newydd (ha) a ganiateir / a gwblheir ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiad a ganiateir (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd dynodedig (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Cyflwr ardaloedd mawr. (Copernicus Open Access hub) |
| **Testun 2: Aer (diogelu'r amgylchedd)** | | |
| • Yn gyffredinol, mae ansawdd yr aer yng Nghymru wedi gwella, wrth i reoliadau allyriadau statudol a sylfaen ddiwydiannol lai yn arwain at leihad mewn allyriadau diwydiannol. Fodd bynnag, mae'r targedau ar gyfer ansawdd aer amgylchynol o ran nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, nicel a hydrocarbonau aromatig amlgylchredol o hyd yn cael eu torri yng Nghymru. Er bod diwydiant yn parhau i fod yn ffynhonnell sylweddol o lygryddion, mae ffynonellau eraill, rhai bach neu fwy gwasgaredig yn gyffredinol | 2b) Cynnal a gwella ansawdd yr aer ledled Ceredigion. | • Lefel y llygryddion aer allweddol (e.e. NO2, PM10, PM2) (Stats Cymru) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| sy'n ddarostyngedig i lai o reoleiddio neu ddim rheoleiddio, bellach wedi dod yn fwy amlwg.<br>• Mae Ceredigion yn cydymffurfio â'r holl safonau ansawdd aer ac eithrio o ran osôn.<br>• Mae'n hysbys fod osôn yn broblem fwy mewn ardaloedd gwledig yn ystod amodau poeth yn yr haf.<br>• Mae problemau ansawdd aer wedi bod yn gysylltiedig ag unedau amaethyddol dwys, gyda lefelau mwy o amonia a nitrogen yn yr atmosffer. | | |
| **Testun 2: Dŵr (diogelu'r amgylchedd)** | | |
| • Caiff daearyddiaeth Ceredigion ei dominyddu gan ddalgylchoedd afonydd Rheidol, Ystwyth, Aeron, Dyfi a Theifi, ynghyd â nifer fach o ddalgylchoedd llai ar afonydd arfordirol.<br>• Mae afon Teifi o bwysigrwydd rhyngwladol am ei bywyd gwyllt ac mae'n bysgodfa eogiaid a brithyllod môr bwysig. Mae aber afon Dyfi hefyd yn rhyngwladol bwysig am ei bywyd gwyllt.<br>• Yn ardaloedd ucheldirol y prif afonydd, mae asideiddio yn sgil dyddodiadau atmosfferig yn creu pwysau. Er yr ystyrir ei bod yn lleihau, mae'n bosibl | 2c) Lliniaru effeithiau niweidiol defnyddio tir ar y swm o adnoddau dŵr arfordirol a mewndirol a'u hansawdd. | • Ansawdd dŵr ymdrochi<br>• Canran y cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyflawni status cyffredinol da neu uchel (Cyfoeth Naturiol Cymru) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| fod yr effeithiau'n gwaethygu yn sgil gweithgareddau coedwigaeth ac erydu'r tir.<br>• Mae gan ogledd Ceredigion nifer sylweddol o fwyngloddiau metel segur hanesyddol sy'n llygru cyrsiau dŵr ac yn lleihau amrywiaeth infertebratau a phoblogaethau o bysgod.<br>• I ddwysáu'r gwaith ffermio mewn rhai ardaloedd o'r sir (yn enwedig ar gyfer llaeth a chyw iâr), mae angen arfer da mewn rheoli slyri, dŵr a phriddoedd.<br>• Gall dŵr ffo amaethyddol a ffynonellau eraill o lygredd effeithio ar ansawdd y dŵr.<br>• Mewn rhannau isaf afonydd, mae pwysau amaethyddol, gan gynnwys effeithiau adeiledd a rheoli tir, yn arbennig o sylweddol ac eang.<br>• Gall ansawdd dŵr yn ardaloedd trefol Ceredigion – sydd yn aml ar yr arfordir – ddioddef o allyriadau carthffosiaeth a systemau draenio nas cysylltir yn gywir. Mae prinder argaeledd dŵr yn nalgylch afon Rheidol.<br>• Mae sicrhau ansawdd dŵr da yn ein galluogi i fwynhau traethau ymdrochi a dŵr yfed diogel (mae gwaith tynnu dŵr yn Llechryd ac Ystrad Fflur), yn | | |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| ogystal â mwynhau gweithgareddau hamdden sy'n seiliedig ar ddŵr, megis gwylio bywyd gwyllt, pysgota, caiacio a chanŵio (megis Canolfan Ganŵio Rhwyfwyr Llandysul) ar yr arfordir ac yn yr afonydd. | | |
| **Testun 3: Asedau materol (gwastraff, mwynau, cyfleustodau ac ynni adnewyddadwy)** | | |
| • Cyfyngiadau ar ddatblygu ffermydd gwynt yn sgil absenoldeb cysylltiad y Grid Cenedlaethol ag SSAD.<br>• Mae cyfleoedd yn bodoli ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.<br>• Angen hwyluso datblygiad ynni adnewyddadwy er mwyn hybu'r ymdrech genedlaethol i allyrru dim carbon.<br>• Mae tir wedi'i neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer darparu cyfleuster gwastraff rhanbarthol neu gyfleusterau yng Ngheredigion.<br>• Ymhen amser, mae'n bosibl y bydd angen nodi mwy o dir yng Ngheredigion i fodloni ei ofynion o ran gwastraff a'r gofynion o ran cyflawni dim gwastraff.<br>• Nodir gofynion o ran gwaredu/ailgylchu gwastraff ar lefel genedlaethol ac mae'r cyngor wrthi'n cyflawni'r holl dargedau tirlenwi ac ailgylchu gwastraff. | 3a) Defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. | • Cyfanswm y tunelli o wastraff trefol a pherfformiad yn erbyn: Targedau ailgylchu awdurdodau lleol, h.y. y lefelau isaf i'w cyflawni ar gyfer paratoi i ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) ynghylch gwastraff trefol (wedi'u mynegi fel canran). Y targed ar hyn o bryd yw 58% (a fydd yn codi i 64% erbyn 2019/20 (Stats Cymru, 2018).<br>• Perfformiad yn erbyn targedau lwfansau tirlenwi, h.y. cyfyngau'r lwfans ar gyfer y tunelli o wastraff trefol biodiraddiadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi (Adroddiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru 2017/2018; Cyfoeth Naturiol Cymru, 2018) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Darparu cyflenwad digonol o fwynau sydd eu hangen ar gymdeithas nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â diogelu a gwella amwynder (gan weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro ar gyfer tywod a graean a chan ystyried adnoddau gweithio wrth gefn gyda chydsyniad(au) cynllunio).<br>• Nodi a diogelu'r adnoddau tywod a graean pwysicaf yn y sir i'w gwarchod rhag cael eu sterileiddio.<br>• Gwarchod ardaloedd lle na ddylid tynnu neu gludo mwynau oherwydd:<br>o Ei effaith debygol, y tu hwnt i gyfyngiadau derbyniol, ar iechyd a diogelwch dynol<br>o Y bydd yn cyfyngu ar gapasiti amgylcheddol [safleoedd â dynodiadau gwarchod geolegol/natur, safleoedd â nodweddion diwylliannol neu hanesyddol, neu safleoedd o sensitifrwydd tirwedd uchel]<br>• Rhaid darparu ar gyfer adfer safleoedd mwynol i safon uchel ac i ddefnydd buddiol a chynaliadwy yn ddiweddarach. | 3b) Datblygu a chynnal gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel sy'n gydnaws â'r amgylchedd ac yn gysylltiedig. | • Cyfanswm y gwastraff cartref/diwydiannol a masnachol a gynhyrchir / a ailgylchir / sy'n mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn (Stats Cymru, 2018)<br>• Nifer y ceisiadau am fastiau a ganiatawyd ac a gwblhawyd (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Nifer y canolfannau gwasanaeth a gyfyngwyd arnynt gan broblemau seilwaith (trin carthffosiaeth a chyflenwi dŵr) (Adroddiad Blynyddol Dŵr Cymru, AMB Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Cydymffurfio â'r datganiad technegol rhanbarthol (Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2014) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae angen ystyried capasiti seilwaith (yn enwedig trafnidiaeth a charthffosiaeth) i alluogi safleoedd i gynnig eu hunain.<br>• Mae band eang cyflym a signal ffonau symudol wedi gwella ond mae rhai ardaloedd i'w cwmpasu o hyd. | | |
| **Testun 4: Bioamrywiaeth, ffawna a fflora (cadwraeth natur)** | | |
| • Mae 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o bwysigrwydd rhyngwladol a thua 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodir yn genedlaethol, a chwe Gwarchodfa Natur Genedlaethol.<br>• Mae ACA ar gyfer llamidyddion ym Mae Aberteifi a darpar Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer trochyddion gyddfgoch yng ngogledd Bae Aberteifi.<br>• Mae'r porfeydd rhos gwlyb ac iach, gyda'u glaswellt y gweunydd porffor a'u rhywogaethau brwyn, yn gynefinoedd pwysig i rywogaeth brin brith y gors ac yn nodwedd bwysig yng Ngheredigion. Mae argaeledd da byw, yn enwedig gwartheg, ar gyfer pori'r ardaloedd hyn yn yr haf, yn hanfodol i'w rheolaeth. | 4a) Rhoi gwerth ar fioamrywiaeth, ei gwarchod a'i gwella, gan gynnwys ei gwydnwch a'i chysylltedd ecolegol, a gwireddu potensial gwasanaethau ecosystemau. | • Canran y datblygiad a ganiateir lle y rhagdybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar y canlynol: Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, a chynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth; cysylltedd ecolegol; coed, gwrychoedd a choetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder; neu wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol (Cyngor Sir Ceredigion / AMB a Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>• Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau ar gyfer: bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, a chynefinoedd a |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae rheoli'r trawsnewid rhwng lefelau trwythiad uchel ar gyforgorsydd gweithredol a thir amaethyddol cyfagos sydd wedi'i ddraenio yn her.<br>• Mae rhwydweithiau helaeth yn bodoli ar gyfer amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan gynnwys glaswelltir, gwlyptir a choetir, arfordir, ymylon ucheldirol a Dyffryn Teifi, sy'n darparu coridorau tirwedd pwysig o gysylltedd. Mae mathau eraill o gynefinoedd yn fwy darniog.<br>• Nid yw gallu ein cynefinoedd naturiol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau – bioamrywiaeth, storio carbon, lliniaru llifogydd, mynediad hamdden a thwristiaeth – yn cael ei wireddu.<br>• Mae adsefydlu, ehangu a gwella amodau a chysylltedd y cynefinoedd hyn yn allweddol i sicrhau'r manteision hyn. | | rhywogaethau blaenoriaeth); cysylltedd ecolegol; coed, gwrychoedd a choetiroedd; neu wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Colli cynefinoedd blaenoriaeth (ha) yn sgil datblygiad newydd (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Colli safleoedd (ha) sy'n ateb meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn sgil datblygiad newydd (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth / camau gweithredu a thargedau Cynllun Adfer Natur Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion) |
| **Testun 5: Treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol (tirwedd ac amgylchedd adeiledig)** | | |
| • Mae bygythiad amlwg i'r dirwedd wledig ac arfordirol o ddatblygiad yng nghefn gwlad agored, gan gynnwys o flerdwf gwledig, datblygiadau ffermydd | 5a) Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a | • Nifer yr anheddau newydd a ganiatawyd yng nghefn gwlad agored (gan gynnwys tai fforddiadwy a REWD) (Cyngor Sir Ceredigion) |

| **Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd** | **Amcanion arfaethedig** | **Dangosyddion posibl (ffynhonnell)** |
|---|---|---|
| gwynt, mastiau, llety twristiaeth a datblygiad amaethyddol dwys, a bygythiadau o beilonau trydan yn y dyfodol.<br>• Mae tirweddau mawr o ansawdd uchel sydd â diffyg gwarchodaeth gan fesurau statudol, a dylid gwerthfawrogi a chadw'r rhain fel y gellir eu mwynhau yn hamddenol a'u mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.<br>• Mae'r confensiwn tirweddau'n diffinio pwysigrwydd tirwedd.<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig o lonyddwch ein tirweddau a sut y gellid eu cadw.<br>• Mae'r morwedd a'r dirwedd arfordirol dan fygythiad gan ddatblygiadau twristiaeth, e.e. parciau carafanau mawr.<br>• Dylid gwerthfawrogi a chadw tirweddau diwylliannol a naturiol trwy'r system gynllunio.<br>• Yn gyffredinol, mae henebion cofrestredig mewn cyflwr da, ond mae nifer fach o henebion yn methu yn sgil diffyg gwaith cynnal a chadw a phrosesau hindreulio. Ceir newid dynodedig i sicrhau bod henebion rhestredig mewn cyflwr da. | dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, arwahanrwydd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. | • Maint yr anheddau newydd a'u nifer (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Swm y datblygiad a ganiatawyd ac a gwblhawyd mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Swm y datblygiad a ganiatawyd ac a gwblhawyd mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP gyda gwerthusiad cyffredinol o 'eithriadol' (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Nifer yr asedau hanesyddol mewn perygl (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Cadw)<br>• Nifer y ceisiadau ôl-weithredol sy'n effeithio ar asedau hanesyddol (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Cadw)<br>• Nifer yr achosion o orfodi sy'n effeithio ar asedau hanesyddol (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Cadw)<br>• Nifer yr henebion rhestredig ar y rhestr "henebion mewn perygl" (Cadw)<br>• Nifer yr adeiladau rhestredig ar y rhestr "adeiladau mewn perygl" (Cadw) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae llawer o safleoedd hanesyddol o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol dan fygythiad, e.e. patrymau meysydd hynafol. Ceir newid dynodedig i sicrhau bod adeiladau rhestredig mewn cyflwr da.<br>• Nifer fawr o anheddau gwledig i weithwyr menter a rhai newydd yn arwain at ddatblygu adeiladau newydd yng nghefn gwlad agored.<br>• Gwaith o drosi adeiladau gwledig â dyluniadau dwys ac isel eu hansawdd. Ceir newid dynodedig i sicrhau bod adeiladau rhestredig mewn cyflwr da.<br>• Nid yw maint yr anheddau newydd mewn lleoliadau eraill yn cyd-fynd â chymeriad arddulliau adeiladu lleol ac maent yn effeithio'n negyddol ar y dirwedd. Ceir newid dynodedig i lunio rhestr o asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol penodol i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau am gynlluniau lleol.<br>• Nodir nifer gynyddol o adeiladau cofrestredig fel ‘adeiladau mewn perygl’.<br>• Ni roddir unrhyw warchodaeth i asedau hanesyddol o bwysigrwydd lleol ac maent mewn perygl. | | |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae diffyg rheolaeth a gwarchodaeth briodol gan ardaloedd cadwraeth yn absenoldeb arfarniadau a chynlluniau rheoli.<br>• Diffyg gorfodaeth ragweithiol i warchod a chadw asedau hanesyddol.<br>• Mae adeiladau ffermydd hanesyddol mewn perygl dybryd yn sgil diffyg defnydd ohonynt, esgeulustod, a'u trosi heb gydymdeimlad. | | |
| **Testun 6: Y boblogaeth ac iechyd dynol (tai, y boblogaeth, a thwf tai)** | | |
| • Mae angen gwella argaeledd cartrefi fforddiadwy, hygyrch a diogel i ddiwallu anghenion preswylwyr.<br>• Nid oes gan Geredigion stoc ddigon hyblyg o dai i ddiwallu'r anghenion presennol.<br>• Diffyg llety addas i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, gan gynnwys tai ymddeol, tai gwarchod, a chyfleusterau gofal ychwanegol.<br>• Lleihad ym maint aelwydydd a diffyg llety addas i ddiwallu anghenion aelwydydd llai ac i annog pobl i symud i gartrefi llai o faint er mwyn creu lle am lety i deuluoedd. | 6a) Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol nodedig a sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion y ddemograffeg sy'n newid.<br><br>6b) Galluogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynol. | • Nifer y tai fforddiadwy (unedau a chyfran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd yng Ngheredigion (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Nifer y chwe chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa'r post, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn canolfan gwasanaeth (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 30% fwyaf difreintiedig<br>• Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae sector datblygu tai ar raddfa fach na all hwyluso'r ddarpariaeth o dai ar raddfa fawr.<br>• Hyfywedd datblygu tai cyfyngedig er mwyn cyflawni lles cynllunio, gan gynnwys adeiledd, mannau agored, a thai fforddiadwy a hygyrch.<br>• Mae patrwm presennol o ddatblygiad isel ei ddwysedd ond mawr ei unedau yn cael effaith ar hyfywedd datblygiadau.<br>• Diffyg eiddo un ystafell wely a dwy ystafell wely mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn y sector tai cymdeithasol.<br>• Mae galw uchel am lety un ystafell wely a llety rhentu preifat yn y sector preifat yn sgil goblygiadau'r diwygiadau lles ar bobl o dan 35 oed.<br>• Mwy o ddigartrefedd a digartrefedd cudd yn sgil diwygiadau lles.<br>• Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau o ran ansawdd y stoc dai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae diffyg preswylwyr yn aelwydydd Ceredigion.<br>• Mae 25% o aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd. | | • Nifer a chanran y tai gwag (Cyngor Sir Ceredigion, cofnodion y dreth gyngor)<br>• Swm yr eiddo hygyrch a ddyrannwyd o'r gofrestr tai hygyrch (dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Swm yr eiddo fforddiadwy a ddyrannwyd o'r gofrestr tai fforddiadwy (dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Nifer yr aelwydydd sy'n symud i dai cymdeithasol llai o faint (dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Asesiad o lety sipsiwn a theithwyr (Cyngor Sir Ceredigion 2016) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Prisiau tai uchel o'u cymharu ag incwm yn arwain at ddiffyg tai fforddiadwy.<br>• Bydd mynediad i'r ddarpariaeth gofal iechyd a newidiadau yn y ddarpariaeth addysg mewn sir wledig sydd â phoblogaeth wasgaredig yn cael goblygiadau ar leoliad a dosbarthiad tai.<br>• Mae angen monitro anghenion tai teithwyr a sipsiwn a phobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.<br>• Mae angen pennu cynaliadwyedd cymharol aneddiadau trefol a gwledig a'r potensial am dwf tai i hyrwyddo gwell cynaliadwyedd yn y dyfodol yn ogystal â gwell mynediad i wasanaethau sydd dan fygythiad yn sgil dwysedd poblogaeth isel.<br>• Mae diogelwch y gymuned yn broblem i rai cymunedau.<br>• Mae angen i ansawdd a dyluniad tai gyd-fynd ag ansawdd yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Ngheredigion a helpu i gadw neu wella bioamrywiaeth. | | |
| **Testun 7: Y boblogaeth ac iechyd dynol (hamdden, adloniant, iechyd a llesiant)** | | |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae cyfleoedd ledled y sir i wella mynediad i ardaloedd gwyrdd yn agosach at gartref a gweithle pobl ledled y sir.<br>• Mae angen inni ymgysylltu â chymunedau ar lefel leol, yn enwedig lle mae problemau cymdeithasol fel problemau iechyd meddwl neu ordewdra yn ystod plentyndod, i ymchwilio i gyfleoedd i wella argaeledd mannau gwyrdd, a all ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, mynediad, mwynhad tawel, a gweithgareddau megis garddio neu wirfoddoli ym maes cadwraeth.<br>• Mae cyfleoedd mewn ardaloedd allweddol, megis Dyffryn Teifi a ledled y sir, i wella mynediad a hamdden. Yn ogystal ag ardaloedd o goedwig a mynyddoedd y sir, mae gan Geredigion rwydwaith helaeth o hawliau tramwy a llwybrau beicio hefyd. Ymhlith y problemau mae cynnal llwybrau a llwybrau ceffylau a diwallu anghenion y nifer helaeth o ddefnyddwyr a'r galw cynyddol am fynediad i gefn gwlad.<br>• Mae natur wledig bennaf Ceredigion yn golygu bod hygyrchedd i wasanaethau yn broblem yn | 7a) Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | • Cyfran yr aelwydydd o fewn pellter cerdded/beicio (400m) o wasanaethau iechyd allweddol (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Swm y cyfleusterau agored newydd (ha) a ddarperir (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Cyfran yr anheddau newydd o fewn 300m o'u man gwyrdd naturiol agosaf (Cyngor Sir Ceredigion / AMB) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| gyffredinol, yn enwedig i'r rheiny mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell yn y sir. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i bobl hŷn ac i bobl anabl.<br>• Yn sgil natur wledig Ceredigion, mae cost y pen y ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn uwch nag mewn ardaloedd trefol.<br>• Yn y sir, mae ardaloedd o amddifadedd a salwch cyfyngus hirdymor. Hefyd, mae gan Geredigion un o'r lefelau cenedlaethol uchaf o farwolaethau yn y gaeaf ymhlith y rheiny sy'n 65 oed neu'n hŷn. Gallai hyn fod oherwydd amodau tai gwael a thlodi tanwydd. Mae'n bosibl y bydd angen ymchwil bellach i'r effeithiau hyn.<br>• Mae cyfle am waith cynllunio gofodol i greu amgylcheddau sy'n hyrwyddo ffyrdd iachus a gweithgar o fyw. Gallai hyn gynnwys darparu cyfleusterau megis ardaloedd chwarae, mannau agored, llwybrau dynodedig, ac ati.<br>• Mae nifer fawr o ddamweiniau traffig yn digwydd yn y sir. | | |
| **Testun 8: Y boblogaeth ac iechyd dynol (twristiaeth)** | | |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae twristiaeth yn sector pwysig yn yr economi.<br>• Mae llety amgen yn dod yn fwyfwy poblogaidd.<br>• Mae cyfle i gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n dod ar wyliau byr, 'twristiaeth werdd' a thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn y sir.<br>• Mae cyfle i ddatblygu cyfleusterau newydd yn y sir a fyddai'n dwyn budd i'r sector twristiaeth (h.y. y rheiny sy'n ymweld â'r ardal) a'r sector hamdden ac adloniant (yn bennaf i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal).<br>• Ar hyn o bryd, mae diffyg cyfleusterau aml-dywydd yn y sir. Byddai cyfleusterau aml-dywydd ac amseroedd agor hwy yn dwyn budd i'r sector twristiaeth yn ogystal â'r sector hamdden ac adloniant.<br>• Mae llawer o safleoedd carafanau ar hyd yr arfordir a gallai llawer o'r rhain fod mewn perygl o erydu arfordirol a llifogydd.<br>• Mae carafanau yn adnodd pwysig yn y sir. Fodd bynnag, gyda dyheadau newidiol ymysg twristiaid, mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol. | 8a) Hyrwyddo, datblygu a gwella'r cyfleoedd am gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant yng Ngheredigion sy'n gynaliadwy ac sy'n gydnaws â'r amgylchedd. | • Diwrnodau o dwristiaeth a nifer y twristiaid yn ôl<br>i. Llety â gwasanaeth<br>ii. Llety heb wasanaeth<br>iii. Aros gyda ffrindiau neu berthnasau<br>iv. Ymwelwyr diwrnod |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae arfordir a chefn gwlad uchel eu hansawdd Ceredigion yn elfennau allweddol wrth farchnata Ceredigion fel cyrchfan twristiaeth. | | |
| **Testun 9: Y boblogaeth ac iechyd dynol (addysg)** | | |
| • Mae rhai ysgolion cynradd wedi cau ac mae dwy ysgol fawr newydd wedi agor yn ne'r sir yn ystod y blynyddoedd diweddar.<br>• Gallai ailstrwythuro ysgolion ledled y sir achosi cynnydd yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth breifat.<br>• Mae'n bosibl y bydd mwy o ysgolion yn mynd yn ddiangen wrth i nifer y disgyblion leihau. Gellid ailddefnyddio rhai adeiladau ysgolion, gan gynnig cyfleusterau cymunedol newydd.<br>• Nid yw cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer graddedigion sydd wedi astudio yn y sir ac a hoffai aros yn ateb y galw.<br>• Mae'n bosibl fod diffyg hyfforddiant galwedigaethol yn y sir ar gyfer rhai pynciau arbenigol. | 9a) Creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu sylfaen sgiliau ac addysg Ceredigion. | • Nifer a chanran y bobl rhwng 16 a 64 oed sydd â chymwysterau NVQ<br>• Cyfran y bobl rhwng 16 a 24 oed o fewn 30, 60 a 90 munud o deithio o 'ddarparwyr dysgu' rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth wrth gerdded neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn car (Cyngor Sir Ceredigion / AMB) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Yn sgil lefel sylfaen weddol isel o ddiwydiant yn y sir, mae'n bosibl y bydd llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd â'r prifysgolion nag mewn ardaloedd eraill. | | |
| **Testun 10: Y boblogaeth ac iechyd dynol (y Gymraeg)** | | |
| • Ceredigion yw un o gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Cymdogaethau a chymunedau dwyieithog Cymraeg eu hiaith Ceredigion yw sylfaen ei diwylliant a'i bywyd beunyddiol.<br>• Bu lleihad o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion rhwng 2001 a 2011. Yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, er 2011 ni fu newid sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Daw'r lleihad hwn yn sgil newid mewn demograffeg, yn bennaf pobl o oedran ymddeol yn mewnfudo a phobl ifanc yn allfudo. Mewn gwirionedd, bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith rhai grwpiau oedran rhwng y ddau gyfrifiad.<br>• Dywedodd 47% o boblogaeth Ceredigion sy'n dair oed neu'n hŷn y gallent siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), ond mae'r ffigur ychydig yn uwch yn yr arolwg | 10a) Gwarchod a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. | • Nifer a chanran y bobl sy'n dair blwydd oed a hyn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad<br>• Canran yr unigolion tair blwydd oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl amcangyfrif o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth<br>• Nifer a chanran y disgyblion yng Ngheredigion sy'n siarad Cymraeg gartref (Cyfrifiad Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn asesiad athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| blynyddol o boblogaeth aelwydydd (59.1%) (Stats Cymru, 2019).<br>• Mae cysywllt cynhenid rhwng y ddarpariaeth o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol a'r gwaith o gynorthwyo cymunedau Cymraeg. Nododd gwaith ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar lesiant fod diffyg tai fforddiadwy yn bryder i gymunedau Cymraeg.<br>• Mae cofrestr enwau lleoedd hanesyddol Cymru a gwaith hyrwyddo trwy’r polisi enwi a rhifo strydoedd yn helpu i ddiogelu enwau Cymraeg.<br>• Annog busnesau a sefydliadau preifat i weithredu polisi iaith Gymraeg a chynllunio sut y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog, gan ddefnyddio mesurau megis arwyddion dwyieithog a hyfforddiant i staff.<br>• Mae cynrychiolaeth gref y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn golygu bod yr iaith yn rhan fawr o'r gwead cymdeithasol a'i bod yn briodol ei hystyried.<br>• Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y Gymraeg fel rhan o arfarniad o gynaliadwyedd pob dogfen sydd â statws cynllun datblygu. Mae hyn yn cryfhau'r cyngor a ddarperir | | |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| mewn polisïau cyfredol (TAN20 (2013)), sy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried materion y Gymraeg fel rhan o'r arfarniad o gynaliadwyedd.<br>• Ceredigion yw canolbwynt y Gymraeg ac mae'n dra pherthnasol i deimladau o gynhwysiant a hunaniaeth.<br>• Mae addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn o dan 16 oed wedi cael effaith sylweddol ar nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg (neu sydd â dealltwriaeth ohoni), sydd felly'n cynnal cymunedau Cymraeg mewn ardaloedd a fyddai wedi gweld cwymp llawer mwy yng nghyfran y siaradwyr fel arall.<br>• Mae gan Geredigion a Llywodraeth Cymru bolisïau a safonau Cymraeg cadarn sy'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y sector cyhoeddus. | | |
| **Testun 11: Y boblogaeth ac iechyd dynol (trafnidiaeth)** | | |
| • Dibyniaeth fawr ar geir yn sgil natur wledig y sir.<br>• Llai o ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.<br>• Angen gwella teithio llesol (h.y. gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) a mapiau teithio integredig penodol i Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont | 11a) Lleihau'r angen i deithio a'i effaith a galluogi'r defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy a llesol o drafnidiaeth. | • Ymestyn hyd y llwybrau beicio yng Ngheredigion / hawliau tramwy cyhoeddus / rhwydwaith teithio llesol (metrau) (Cyngor Sir Ceredigion / teithio llesol)<br>• Cyfran yr aelwydydd sydd o fewn 30, 60 a 90 munud o deithio o amwynderau, gan gynnwys (i) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| Steffan). Angen lleihau allyriadau $CO_2$ trwy newidiadau mewn trafnidiaeth, megis symud at gerbydau trydanol.<br>• Yr angen i leihau effaith teithio ar yr amgylchedd naturiol ac ar fioamrywiaeth.<br>• Mae prinder trafnidiaeth gyhoeddus ar drenau yn y sir (nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar drenau yn ne'r sir / bu gwelliannau yn amlder y gwasanaethau ac mae ymrwymiad i agor gorsaf Bow Street yng ngogledd y sir yn ystod y tair a phum mlynedd nesaf).<br>• Mae astudiaeth dichonoldeb Aberystwyth i Gaerfyrddin wedi cychwyn i ystyried cyfleoedd i adfer y rheilffordd.<br>• Cyfleoedd i gyflwyno mwy o drenau o gwmpas Aberystwyth (cwblheir gorsaf reilffordd Bow Street yn y pum mlynedd nesaf).<br>• Hybu lleihad parhaus yn lefel y damweiniau yn y sir.<br>• Mae diffyg cydraddoldeb o ran mynediad i ddulliau cyhoeddus o deithio mewn aneddiadau mwy anghysbell ac i sectorau penodol o'r boblogaeth. | 11b) Gwella hygyrchedd i wasanaethau i gymunedau a'r cysylltedd er lles yr economi. | siop gornel a/neu archfarchnad, (ii) swyddfa'r post, a (iii) meddyg a/neu ysbyty (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Swm y traffig ar y ffordd<br>• Prif ddull o drafnidiaeth ar gyfer teithio i'r gwaith |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae angen targedu datblygiadau a thwf yn y dyfodol ar hyd llwybrau/coridorau trafnidiaeth allweddol.<br>• Lleoliad ymylon Ceredigion.<br>• Mae angen deall a chynllunio'r bygythiad posibl i seilwaith trafnidiaeth yn sgil effeithiau newid hinsawdd yn well. | | |
| **Testun 12: Y boblogaeth ac iechyd dynol (manwerthu a'r economi)** | | |
| • Mae cyfran uchel o swyddi ym meysydd twristiaeth a lletygarwch, manwerthu, y sector cyhoeddus ac iechyd, a nifer weddol isel o swyddi ym meysydd gweithgynhyrchu a gwasanaethau o werth uchel.<br>• Mae diwydiannau a sefydliadau presennol, yn enwedig y prifysgolion a chyrff cenedlaethol eraill, yn gryfder mawr i'r ardal.<br>• Mae dirywiad mewn diwydiannau traddodiadol (amaethyddiaeth).<br>• Mae twf mewn sectorau cyflogaeth "pen uchaf" yn QinetiQ ac IGER.<br>• Sylwyd ar dwf yn y sector gwerth ychwanegol yn y sir, yn enwedig yn y sector bwyd. | 12a) Annog economi fywiog ac amrywiol. | • Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth<br>• Cyflog wythnosol gros canolrifol preswylwyr yng Ngheredigion / cyflogau mewn cymhariaeth â chyflogau cyfartalog y DU<br>• Nifer y gweithwyr yn ôl sector economaidd eang<br>• Swm y datblygiad economaidd a ganiatawyd / a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLl (ha ac unedau) (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Canran yr eiddo gwag yn y canol trefi (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• Cyfraddau geni a marw busnesau Ceredigion (Stats Cymru) |

| Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd a nodwyd | Amcanion arfaethedig | Dangosyddion posibl (ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae tuedd o bobl ifanc yn allfudo, gan arwain at boblogaeth sy'n heneiddio. Yn sgil diffyg rhagolygon swyddi, mae lefelau isel o fewnfudo ymysg y rheiny yn eu 30au. | | • Nifer y bobl sy'n cymudo i ardaloedd yr awdurdod ac allan ohonynt (Stats Cymru)<br>• Nifer yr ymwelwyr ag Aberystwyth (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• % y defnyddiau manwerthu ar y brif ffryntiad manwerthu (Cyngor Sir Ceredigion / AMB)<br>• % y defnyddiau manwerthu ar y ffryntiad manwerthu eilaidd (Cyngor Sir Ceredigion / AMB) |

# Atodiad 2: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau Perthnasol

| Ffactorau hinsoddol |
| --- |
| **Rhyngwladol** |
| Fframwaith Polisi 2030 ar gyfer yr Hinsawdd ac Ynni (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2014) |
| Y strategaeth ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2013) |
| Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy (Uwch-gynhadledd y Byd 2002) |
| Protocol Kyoto ar y Newid yn yr Hinsawdd (1997) |
| Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (1994) |
| Ail Raglen Newid Hinsawdd Ewropeaidd yr UE – ECCP II (2005) |
| **Cenedlaethol** |
| Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2017 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2017) |
| Adroddiad Tystiolaeth Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2017, Crynodeb Cymru – Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 2017./ |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2018) |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Lifogydd ac Erydu Arfordirol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014) |
| Datganiad Polisi: Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013) |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2011) |
| The Clean Growth Strategy: Leading the way to a low carbon future 2017 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2017) |

| |
|---|
| The Carbon Plan:<br>Delivering our low carbon future (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2011) |
| Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu: Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) |
| Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2010) |
| Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) |
| Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2009) |
| Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2008) |
| Nodyn Cyngor Technegol 14 (TAN14): Cynllunio Arfordirol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1998) |
| Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15): Datblygu a Pherygl o Lifogydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) |
| Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd |
| CL-03-16-Lwfansau Newid Hinsawdd at Ddibenion Cynllunio |
| Cyngor ar Oes Datblygiadau a Newid Hinsawdd. (Llythyr Prif Swyddogion Cynllunio 09/01/2014 Cyf; WG0701-14) |
| Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 |
| **Lleol** |
| Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion, 2014) |
| **Pridd, aer a dŵr** |
| **Rhyngwladol** |
| Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2014/52/EU (Yr Undeb Ewropeaidd, 2014) |

| |
|---|
| 7fed Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr UE (Y Cyngor Ewropeaidd, 2013) a'r Seithfed Raglen Gweithredu Amgylcheddol hyd at 2020, 'Living well, within the limits of our planet' (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2013) |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE 2018/851 |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr CE 2000/60/EC |
| **Cenedlaethol** |
| Gweithredu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd: Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018) |
| Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy: Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018) |
| Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Diwygio) 2016 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2016) |
| Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016) |
| Rhan Tri o'r Strategaeth Forol: Rhaglen y DU o fesurau (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2015) |
| Asesiad Cenedlaethol o Forweddau Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015) |
| Datganiad o Bolisi Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017) |
| Strategaeth Ddŵr i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) (Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft 2018 ar y gweill) |
| Rhan Dau o'r Strategaeth Forol: Rhaglenni monitro'r môr y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2014) |
| Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru Mawrth 2019. |
| Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013) |
| Rhan Un o'r Strategaeth Forol: Asesiad cychwynnol a statws amgylcheddol da y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2012) |

| |
|---|
| Prosiect y Parth Cadwraeth Morol (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Natural England, 2011) |
| **Lleol** |
| Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015–2021 (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015) |
| Cynlluniau Rheoli Asedau (Buddsoddiad Dŵr Cymru, ar y gweill) |
| Strategaeth Archwilio Tir Halogedig (Cyngor Sir Ceredigion, 2005) |
| Strategaeth Ansawdd Aer (Cyngor Sir Ceredigion) |
| Prosiectau CNC: gwella ansawdd dŵr. – Adfer Mwynglawdd Metel yng Nghwm Rheidol, Abbey Consols, a Frongoch<br>- Ymweliadau Atal Llygredd ar gyfer dalgylchoedd yn Afon Hirwaun, Carrog, Wyre a'r Aeron.<br>- Prosiectau adfer afonydd ar hyd llednentydd Teifi a Brefi a Ceri. |
| **Asedau materol** |
| **Rhyngwladol** |
| Cyfarwyddeb (UE) 2018/844 sy'n diwygio Cyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni 2012/27/UE |
| Energy 2020, A strategy for competitive, sustainable and secure energy (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2010) |
| Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy 2009/8/EC (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2009) |
| **Cenedlaethol** |
| Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017) |
| Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf: Ymgynghoriad (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017) |
| Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2017 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2017) |
| Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ar y gweill) ac Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2016) |

| |
|---|
| Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016) |
| Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf 2016–2026 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016) |
| Canllawiau ymarfer: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel – pecyn cymorth i gynllunwyr (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Effeithlonrwydd Ynni a Strategaeth Adfer Adeiladau'r DU (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2014) |
| Nodyn Cyngor Technegol 21 (TAN21): Gwastraff (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014) |
| Strategaeth Ddiwydiannol Gwynt y Môr: Camau gweithredu busnes a'r llywodraeth (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2013) |
| Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012) |
| Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2012) a Chynllun Cyflawni (2014) |
| Datganiadau polisi cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2011) |
| Diweddariad 2013 ar raglen ynni adnewyddadwy y DU (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2013) |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014/2020 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) |
| Tuag at ddyfodol diwastraff: dogfen strategaeth gyffredinol ar wastraff i Gymru (Mehefin 2010) a’r Adroddiad Cynnydd (2015) |
| Deddf Ynni 2016 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2016) |
| Canllaw i Drywydd Ynni Adnewyddadwy Newydd Cymru, Ymgynghoriad ar y ffordd ymlaen i Gymru lanach, wyrddach a llai gwastraffus (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) |
| The Energy Challenge: The Energy Review Report (2006) |
| Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 |
| Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005 |

| |
|---|
| Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN8): Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005) |
| Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1 – Agregau (2004) |
| Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru)<br>2004 |
| Our Energy Future – creating a low carbon economy (Yr Adran Masnach a Diwydiant, Chwefror 2003) |
| Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) (Diwygio)<br>2005 |
| Nodyn Cyngor Technegol 19 (TAN19): Telathrebu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) |
| Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU (2001) |
| **Lleol** |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru – Adolygiad 1af (DTRh) |
| Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion (Chwefror 2002) (wrthi dan adolygiad)<br>Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Sir Ceredigion 2012/13 – 2016/17 (Gorffennaf 2013) |
| **Bioamrywiaeth, fflora a ffawna** |
| **Rhyngwladol** |
| Strategaeth bioamrywiaeth yr UE hyd 2020 (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2011) |
| Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar gadw adar gwyllt (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2009) (Y Gyfarwyddeb Adar) |
| Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (Rio de Janeiro, 1992) |
| Cyfarwyddeb yr CE 1992/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd) |
| **Cenedlaethol** |

| |
|---|
| Adroddiad ar Sefyllfa Natur 2016 (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), 2016) |
| Cynllun Adfer Natur Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013) (Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), 2013) |
| Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2017) |
| Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018) |
| Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur (TAN 5): Cynllunio a Chadwraeth Natur (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 (diwygiwyd diwethaf yn 2017) |
| Safon Coedwigaeth y DU: Ymagwedd y llywodraeth i goedwigaeth gynaliadwy, pedwerydd argraffiad (2017) |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (yn gyfoes ac yn hysbys bod yr holl newidiadau ar waith ar 28 Ionawr 2019 neu cyn hynny) |
| Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2013) |
| Nodyn Cyngor Technegol 10 (TAN10): Gorchmynion Cadw Coed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1997) |
| Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 |
| Rhestr Coetiroedd Hynafol (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2011) |
| **Lleol** |
| Cynllun Rheoli ACA Bae Aberteifi (2008) |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (2002) |
| **Tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol** |
| **Rhyngwladol** |
| Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd 2000 |

| |
|---|
| **Cenedlaethol** |
| Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio – Canllawiau Statudol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017) |
| Nodyn Cyngor Technegol 24 (TAN24): Yr Amgylchedd Hanesyddol (Llywodraeth Cymru, 2017)<br>Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (Llywodraeth Cymru, 2016) |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016)<br>Gofyniad y Datganiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth (diwygiad i'r rheoliadau, 2017)<br>Rhestr Statudol o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (2017) |
| Scheduled Monuments & nationally important but non-scheduled monuments (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2013) |
| The Natural Choice: securing the value of nature (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2011) |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| Nodyn Cyngor Technegol 7 (TAN7): Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1996) |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 |
| Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 |
| Rhaglen LANDMAP (Cyfoeth Naturiol Cymru, ar y gweill) |
| **Lleol** |
| Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion (2017)<br>Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys 2017–21 |
| **Poblogaeth ac iechyd dynol** |
| **Y boblogaeth, twf a thai** |
| **Rhyngwladol** |

| |
|---|
| Towards social investment for growth and cohesion 2014–2020 (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2013) |
| **Cenedlaethol** |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016) |
| Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014) |
| Strategaeth Dai Genedlaethol – 'Gwella Bywydau a Chymunedau – Tai yng Nghymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) |
| Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN6): Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) |
| Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Diwygio) 2003, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, a Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| Nodyn Cyngor Technegol 2 (TAN2): Cynllunio a Thai Fforddiadwy (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) |
| One Future: different paths – UK Shared Framework for Sustainable Development (2004) |
| **Lleol** |
| Diweddariad ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Cyngor Sir Ceredigion, 2006)<br>Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (2016)<br>Strategaeth Dai Leol Ceredigion: Tai i Bawb 2018–2023 |
| Heneiddio'n Dda yng Ngheredigion 2016–2019 |
| **Addysg** |
| **Cenedlaethol** |
| Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017–21 |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016) |

| |
|---|
| Iaith Fyw: Iaith Byw: Strategaeth y Gymraeg 2012–2017, Cynllun Gweithredu 2016–2017 |
| Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) |
| Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013) |
| Ieithoedd sy'n Cyfrif: Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo ieithoedd tramor modern (2002) |
| Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi ar gyfer Rhaglen Gynhwysfawr Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru (Awst 2001) |
| Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 |
| **Lleol** |
| Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017–2020 (Cyngor Sir Ceredigion, 2016) |
| Cynllun Addysg Unigol Ceredigion 2006–2008 |
| Cynllun Strategol Addysg Ategol Ceredigion 2003–2004 |
| **Y Gymraeg** |
| **Cenedlaethol** |
| Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru |
| Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2017–21 |
| Symud Cymru Ymlaen 2016–21 |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Camau Nesaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016) |
| Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN20): Cynllunio a'r Gymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017) |
| Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) |

| |
|---|
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Trwy ganolbwyntio datblygiadau uwch eu dwysedd mewn nifer gyfyngedig o leoliadau, bydd llai o angen i ddatblygu yn rhywle arall a bydd llai o golled net o fannau gwyrdd. Fodd bynnag, gall canolfannau trefol fod â chyfoeth o fioamrywiaeth a byddai unrhyw ddatblygiad yn cael effaith negyddol ar gynefinoedd trefol. Bydd natur yr effaith yn dibynnu ar raddfa, lleoliad a natur y datblygiad. | Rh | P | ? | ? | ? | | Bydd astudiaeth gan y Ganolfan Cofnodion Lleol yn nodi aneddiadau a lleoliadau penodol sydd â'r fioamrywiaeth uwch, gan alluogi'r awdurdod i gyfeirio ei waith datblygu at yr ardaloedd sy'n llai pwysig. Mae DM14, DM16, DM20, DM22 a DM23 i gyd yn gweithio tuag at liniaru unrhyw effeithiau negyddol |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Trwy ganolbwyntio datblygiadau uwch eu dwysedd mewn nifer gyfyngedig o leoliadau, bydd llai o angen i ddatblygu yn rhywle arall a bydd llai o golled net o fannau gwyrdd, er ei bod yn debyg y byddai dwysedd y datblygiad yn llai, sy'n golygu y byddai'r polisi yn llai effeithiol na pholisi S02. Bydd natur yr effaith yn dibynnu ar raddfa, lleoliad a natur y datblygiad. | Rh | P | ? | ? | ? | | Bydd astudiaeth gan y Ganolfan Cofnodion Lleol yn nodi aneddiadau a lleoliadau penodol sydd â'r fioamrywiaeth uwch, gan alluogi'r awdurdod i gyfeirio ei waith datblygu at yr ardaloedd sy'n llai pwysig. Mae DM14, DM16, DM20, DM22 a DM23 i gyd yn gweithio tuag at liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Trwy ganolbwyntio datblygiadau uwch eu dwysedd mewn nifer gyfyngedig o leoliadau, bydd llai o angen i ddatblygu yn rhywle arall a | Rh | P | ? | ? | ? | | Bydd astudiaeth gan y Ganolfan Cofnodion Lleol yn nodi aneddiadau a lleoliadau penodol sydd â'r |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | bydd llai o golled net o fannau gwyrdd, er ei bod yn debyg y byddai dwysedd y datblygiad yn llai, sy'n golygu y byddai'r polisi yn llai effeithiol na pholisi S03. Bydd natur yr effaith yn dibynnu ar raddfa, lleoliad a natur y datblygiad. | | | | | | | fioamrywiaeth uwch, gan alluogi'r awdurdod i gyfeirio ei waith datblygu at yr ardaloedd sy'n llai pwysig. Mae DM14, DM16, DM20, DM22 a DM23 i gyd yn gweithio tuag at liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae'r polisi yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ar safleoedd eithriedig, sydd yn lleoliadau maes glas yn gyffredinol. | Rh | P | - | - | - | | Bydd astudiaeth gan y Ganolfan Cofnodion Lleol yn nodi aneddiadau a lleoliadau penodol sydd â'r fioamrywiaeth uwch, gan alluogi'r awdurdod i gyfeirio ei waith datblygu at yr ardaloedd sy'n llai pwysig. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Mae DM14, DM16, DM20, DM22 a DM23 i gyd yn gweithio tuag at liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | | - | - | 0 | 0 | 0 | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau'r Gymraeg ar gynlluniau. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

14/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 5: Tirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol

**Amcan(ion):**

**5a**. Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, arwahanrwydd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion.

**Is-amcanion:**

- Gwarchod nodweddion arbennig tirwedd, cymeriad, morwedd a threflun rhag effeithiau negyddol newid defnydd o dir a'r môr, a'u gwella.
- Lleihau'r golled o lonyddwch a lleihau llygredd golau.
- Dylid osgoi datblygu mewn lleoliadau sensitif a dylid hyrwyddo dyluniadau o ansawdd uchel.
- Annog defnydd priodol yn y dyfodol o dir nas defnyddir.
- Deall a gwerthfawrogi asedau hanesyddol a diwylliannol ac arwahanrwydd lleol, eu gwarchod rhag effeithiau negyddol cynllunio gofodol, a chefnogi eu gwelliant.
- Hyrwyddo dyluniadau o ansawdd uchel ar sail dealltwriaeth go iawn o'r cymeriad ac arwahanrwydd lleol.
- Sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad i ardaloedd a werthfawrogir am dreftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol, ac y cânt eu hyrwyddo trwy eco-dwristiaeth (gan ddarparu mesurau diogelwch ar waith i warchod y safleoedd hyn).

| Polisi | Natur yr effaith | Graddfa | Parhad | Byr | Canolig | Hirdymor | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | ; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | ***ffont italig eisoes yn y cynllun)*** |
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth "wedi'i hymrwymo i wydnwch ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hamgylchedd" ac mae'n "helpu i gryfhau'r Gymraeg, ac yn pennu gwerth ar dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer ei hansawdd cynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig". Mae Amcan 11 yr CDLl yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS yn uniongyrchol, mae Amcan 6 yr CDLl yn ystyried datblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu ymdeimlad o le, mae Amcan 7 yr CDLl yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau diwylliannol | | | | | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn cael eu gwarchod, ac mae Amcan 8 yr CDLl yn cefnogi datblygu'r Gymraeg, sy'n hyrwyddo cynhwysiant diwylliannol. Mae Amcan 4 yr CDLl yn ystyried datblygu asedau diwylliannol yng Ngheredigion yn sensitif. | | | | | | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Dylid cyflawni datblygiad wrth warchod a gwella amgylchedd ac adnoddau'r sir a thrwy ei gwneud yn wydn rhag newid trwy ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau y gall ei seilwaith a'i gwasanaethau wynebu'r heriau hyn.<br><br>Gall canolbwyntio datblygiad mewn canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig ddwyn budd i'r dirwedd ehangach. Fodd bynnag, gallai | Ll | P | ? | ? | ? | | Bydd yr asesiad o'r safleoedd ymgeisiol yn ceisio nodi safleoedd sy'n cael yr effaith leiaf ar y dirwedd ac ar yr amgylchedd hanesyddol. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | datblygiadau o'r fath gael effaith negyddol ar drefluniau'r aneddiadau hynny os cânt eu lleoli neu eu dylunio'n amhriodol. Bydd union natur yr effaith ar y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn parhau'n ansicr nes y caiff y dyraniadau eu cynnig yn fersiwn adneuo'r CDLl. | | | | | | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Dylid cyflawni datblygiad wrth warchod a gwella amgylchedd ac adnoddau'r sir a thrwy ei gwneud yn wydn rhag newid trwy ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau y gall ei seilwaith a'i gwasanaethau wynebu'r heriau hyn.<br><br>Gall canolbwyntio datblygiad mewn canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig ddwyn | Ll | P | ? | ? | ? | | Bydd yr asesiad o'r safleoedd ymgeisiol yn ceisio nodi safleoedd sy'n cael yr effaith leiaf ar y dirwedd ac ar yr amgylchedd hanesyddol. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | budd i'r dirwedd ehangach. Fodd bynnag, gallai datblygiadau o'r fath gael effaith negyddol ar drefluniau'r aneddiadau hynny os cânt eu lleoli neu eu dylunio'n amhriodol. Bydd union natur yr effaith ar y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn parhau'n ansicr nes y caiff y dyraniadau eu cynnig yn fersiwn adneuo'r CDLl. | | | | | | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Gall canolbwyntio datblygiad mewn canolfannau gwasanaeth trefol ddwyn budd i'r dirwedd ehangach. Fodd bynnag, gallai datblygiadau o'r fath gael effaith negyddol ar drefluniau'r aneddiadau hynny os cânt eu lleoli neu eu dylunio'n amhriodol. | Ll | P | ? | ? | ? | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Gall canolbwyntio datblygiad mewn canolfannau gwasanaeth gwledig ddwyn budd i'r dirwedd ehangach. Fodd bynnag, gallai datblygiadau o'r fath gael effaith negyddol ar drefluniau'r aneddiadau hynny os cânt eu lleoli neu eu dylunio'n amhriodol. | Ll | P | ? | ? | ? | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Gall canolbwyntio datblygiad mewn aneddiadau cysylltiedig ddwyn budd i'r dirwedd ehangach. Fodd bynnag, gallai datblygiadau o'r fath gael effaith negyddol ar drefluniau'r aneddiadau hynny os cânt eu lleoli neu eu dylunio'n amhriodol. Yn sgil y swm bach o ddatblygu yn y polisi hwn, mae'n debygol y bydd yr effaith hon yn fach. Mae | Ll | P | ? | ? | ? | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | union raddfa'r effaith hon yn anhysbys, gan ei bod yn dibynnu'n llwyr ar leoliad, natur a graddfa'r datblygiad. | | | | | | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae'r polisi yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ar safleoedd eithriedig, sydd yn lleoliadau maes glas yn gyffredinol. | Ll | P | - | - | - | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | | - | - | 0 | 0 | 0 | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

14/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 6: Y Boblogaeth a Thai

**Amcan(ion):**

Yn sgil y berthynas agos rhwng amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS ar dai a'r boblogaeth, penderfynwyd eu hasesu gyda'i gilydd.

6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol nodedig a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg sy'n newid yn cael eu hadlewyrchu.

6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.

Is-amcanion:

- Sicrhau yr ystyrir tueddiadau'r boblogaeth wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig o ran oedran.
- Sicrhau stoc tai addas a fforddiadwy gyda mynediad i gyfleusterau cyflogaeth ac addysg.
- Sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn aros.
- Hyrwyddo datblygu aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithasol trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio'n gadarnhaol.
- Gwella diogelwch pobl ac eiddo.
- Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a fydd yn gwella cydlyniant cymdeithasol.
- Cynnwys mwy o grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn cymdeithas.
- Cywiro anghydraddoldeb, amddifadedd a gwaharddiadau'r gorffennol.
- Gwella stoc dai'r sir.
- Sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd adeiledig yn cyd-fynd ag ansawdd uchel yr amgylchedd naturiol.
- Sicrhau dyfodol cynaliadwy i gymunedau Ceredigion.

| Polisi | Natur yr effaith | Graddfa | Parhad | Byr | Canolig | Hirdymor | **Tystiolaeth a chyfeiriad** Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS yn gryf trwy'r paragraff, "Bydd yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau trefol a gwledig ymgysylltiedig a dwyieithog y mae gan eu preswylwyr iechyd a llesiant da. Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol ac yn creu a chofleidio newid i wynebu heriau'r 21ain ganrif, sy'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd. Trwy gefnogi a | | | | | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwella canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig y sir, bydd eu rhyngberthynas yn cryfhau, bydd yr angen i deithio yn lleihau, a bydd gwell mynediad a mynediad diogelach i gyfleusterau lleol a chynaliadwy.” Mae amcanion 1, 2, 3, 5, 6, 7 ac 8 yr CDLl hefyd yn cefnogi amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. | | | | | | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi'r amcan yn weithredol trwy wynebu newidiadau yn y ddemograffeg, sicrhau'r twf rhagweledig, a sicrhau y caiff amrywiaeth eang o anghenion tai eu diwallu, gan gynnwys anghenion tai fforddiadwy, dros | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyfnod y cynllun. Bydd bywiogrwydd, cynaliadwyedd a chydlyniant rhwydwaith Ceredigion o gymunedau yn cael eu cryfhau ymhellach yn sgil ymagwedd a lleoliad y twf a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir. | | | | | | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Mae'r polisi yn cefnogi amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ddarparu digon o dai ac unedau cyflogaeth i gyd-fynd â'r twf yn y ddemograffeg ac i ddiwallu amrywiaeth lawn o anghenion. Fe'i hanelir at gynnal cymunedau trefol a gwledig hefyd. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Mae'r polisi yn cefnogi amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ddarparu digon o dai ac | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | unedau cyflogaeth i gyd-fynd â'r twf yn y ddemograffeg ac i ddiwallu amrywiaeth lawn o anghenion. | | | | | | | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Mae'r polisi yn cefnogi amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ddarparu digon o dai ac unedau cyflogaeth i gyd-fynd â'r twf yn y ddemograffeg ac i ddiwallu amrywiaeth lawn o anghenion. Mae'r polisi hwn yn chwarae rôl gref mewn cynnal cymunedau mwy gwledig. Mae'n gwneud hyn trwy greu màs critigol mewn aneddiadau gwledig dethol fel y gallant ddiwallu eu hanghenion eu hunain ac anghenion eu cefnwlad gyfagos. Mae hyn yn arbennig o | Ll | P | + | + | + | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | arwyddocaol o ran gwella hygyrchedd i wasanaethau beunyddiol a lleihau'r angen i'r boblogaeth deithio pellterau hir. Hefyd, mantais fach yw bod y polisi yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol trwy gryfhau cysylltiadau rhwng cymunedau gwledig, yn cynnwys grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn cymdeithas, ac yn dileu rhwystrau er mwyn iddynt ddefnyddio gwasanaethau yn haws. | | | | | | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Mae'r polisi yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o dwf ar lefel fwy lleol er mwyn diwallu anghenion dybryd cymunedau gwledig, er y bydd y rhan fwyaf o'r twf yn digwydd | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig. Bydd hyn ar raddfa lai, ond bydd yn helpu canolfannau gwasanaeth gwledig i gyflawni eu màs critigol. | | | | | | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae gan y polisi effaith gadarnhaol gref ar amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ddarparu ar gyfer angen lleol a fforddiadwy. Mae effaith gadarnhaol gan ei fod yn hyrwyddo stoc dai addas a fforddiadwy, yn cynnwys grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn cymdeithas, ac yn unioni anghydraddoldeb, amddifadedd ac allgau'r gorffennol. | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | Dylai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan ganiatáu cymunedau cydlynol a dwyieithog. | Ll | P | + | + | + | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

15/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 7: Llesiant ac Iechyd Dynol

**Amcan(ion):**

7a. Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.

- **Hyrwyddo ffyrdd llesol ac iachus o fyw.**
- **Dileu rhwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau mwy iach.**
- **Lleihau anghydraddoldeb a darparu mynediad i bob cyfleuster a gwasanaeth.**
- **Lleihau baich iechyd gwael yn y boblogaeth.**
- **Annog cerdded neu feicio fel dull amgen o deithio.**
- **Grymuso pobl i fanteisio ar dreftadaeth naturiol Ceredigion ac i'w gwerthfawrogi.**
- **Lleihau achosion o ddamweiniau.**
- **Annog integreiddio materion iechyd mewn gweithgareddau cynllunio.**
- **Hyrwyddo datblygiad ar gyfer gwella a chynnal amgylcheddau/cyfleusterau cymdeithasol a ffisegol sy'n darparu cyfleoedd i wella iechyd a llesiant trwy weithgareddau corfforol neu feddyliol.**
- **Sicrhau y darperir safleoedd gofal iechyd digonol ledled y sir.**

| **Polisi** | **Natur yr effaith** | **Graddfa** | **Parhad** | **Byr** | **Canolig** | **Hirdymor** | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | ; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | ***italig eisoes yn y cynllun)*** |
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy "ymrwymo i iechyd a llesiant" a "diwallu anghenion iechyd a llesiant". Mae amcanion 1, 4, 5, 6, 7, 8, 11, 12, 16, 17 a 18 yr CDLl hefyd yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. | | | | | + | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi canolfannau gwasanaeth gwledig yn ogystal â chanolfannau gwasanaeth trefol, sy'n sicrhau mynediad i gyfleusterau sylfaenol i gyfran fwy o'r boblogaeth, sy'n hybu iechyd a llesiant heb fod angen teithio pellterau hir. | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Trwy ateb anghenion tai a thwf economaidd, mae anghenion y cymunedau yn cael eu diwallu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd dynol. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Mae cyd-leoli tai, swyddi a gwasanaethau mewn canolfannau gwasanaeth trefol yn caniatáu mynediad haws i gyfleusterau, e.e. cyfleusterau gofal iechyd, parciau, llwybrau cerdded, mannau agored. Hefyd, mae'n lleihau'r angen i deithio mewn car gan y bydd hygyrchedd yn well, gan leihau anghydraddoldeb felly a gwella llesiant cyffredinol. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Mae cyd-leoli tai, swyddi a gwasanaethau mewn canolfannau gwasanaeth gwledig yn caniatáu mynediad haws i | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyfleusterau, e.e. cyfleusterau gofal iechyd, parciau, llwybrau cerdded, mannau agored. Hefyd, mae'n lleihau'r angen i deithio mewn car gan y bydd hygyrchedd yn well, gan leihau anghydraddoldeb felly a gwella llesiant cyffredinol. | | | | | | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Dyluniwyd y polisi i ddiwallu anghenion cymunedau presennol. Mae'n caniatáu pobl i fyw ger ffrindiau neu berthnasau. Gallai hyn ddwyn buddion iechyd ar ffurf gofal plant neu'r gallu i ofalu am eraill sydd mewn angen. Effaith negyddol byw mewn ardal o'r fath yw'r anhawster defnyddio gwasanaethau, yn enwedig cyfleusterau gofal iechyd. | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Dyluniwyd y polisi i ddarparu tai i ddiwallu anghenion lleol a fforddiadwy, ac felly mae'n cael llawer o effeithiau iechyd cadarnhaol (gan gynnwys lleihau straen) ac mae'n lleihau anghydraddoldeb. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | Mae'r polisi yn diwallu anghenion cymunedau presennol ac yn caniatáu cynnwys y Gymraeg. | Ll | P | + | + | + | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

15/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 8: Hamdden, Adloniant a Thwristiaeth

**Amcan(ion):**

8a. Hyrwyddo, datblygu a gwella'r cyfleoedd am gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant yn y sir sy'n gynaliadwy ac sy'n gydnaws â'r amgylchedd.

Is-amcanion:

- Sicrhau bod ardaloedd a werthfawrogir am eu treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol, yn hawdd eu cyrraedd a'u bod yn cael eu hyrwyddo trwy eco-dwristiaeth.
- Sicrhau bod y sector twristiaeth ac atyniadau yn darparu mynediad trwy ddetholiad o ddulliau o deithio yn hytrach na dulliau preifat.
- Hyrwyddo ac annog ‘twristiaeth werdd’ yng Ngheredigion.
- Hyrwyddo ac annog mynediad cymunedol i asedau naturiol Ceredigion.
- Datblygu a gwarchod cyfleoedd hamdden ac adloniant sy'n caniatáu i'r gymuned gymryd rhan ac ar gyfer cydlyniant cymunedol ac sy'n hwyluso'r gweithgarwch hwnnw, a gwella iechyd a llesiant.
- Cefnogi adnoddau a gweithgareddau diwylliannol lleol.
- Gwella maint y mannau agored hygyrch i'r cyhoedd a'u hansawdd.

| **Polisi** | **Natur yr effaith** | **Graddfa** | **Parhad** | **Byr** | **Canolig** | **Hirdymor** | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy “fod yn sir lle bydd pobl yn dewis byw ac ymweld sydd wedi'i hymrwymo i'w diwylliant a'i | | | | | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | threftadaeth" a thrwy "bennu gwerth ar yr amgylchedd, y golygfeydd, a'r dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig". Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi'r sir. Mae Amcan 4 yr CDLl yn cefnogi twristiaeth yn gryf, mae Amcan 7 yr CDLl yn trafod hamdden ac adloniant, mae Amcan 11 yr CDLl yn annog mynediad i dirwedd Ceredigion, ac mae Amcan 12 yr CDLl yn annog mynediad i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth sy'n hyrwyddo eco-dwristiaeth. | | | | | | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn annog twf economaidd, y mae twristiaeth yn elfen | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | allweddol ohono, a bydd yn cynnwys polisïau penodol i fynd i'r afael â thwf mewn twristiaeth. | | | | | | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Cydnabyddir yr angen am y diwydiant twristiaeth fel rhan o'r twf economaidd a ragwelir ar gyfer y sir. Felly, mae'r polisi yn annog y twf hwn. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Trwy ganolbwyntio'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau mewn canolfannau gwasanaeth trefol, gall mwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau hamdden ac adloniant yn hawdd. Lle bo'n bosibl, dylid canolbwyntio cyfleusterau mawr i dwristiaid yn y prif drefi. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Trwy ganolbwyntio'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau addas mewn | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | canolfannau gwasanaeth gwledig, gall mwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau hamdden ac adloniant yn hawdd. Fodd bynnag, ni fydd y manteision mor fawr â manteision y canolfannau gwasanaeth trefol gan na fydd y màs critigol yn bodoli ar gyfer datblygiadau megis sinemâu, pyllau nofio ac ati. Dylid lleoli cyfleusterau mwy i dwristiaid yno, yn hytrach nag yng nghefn gwlad agored. | | | | | | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Bydd cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu cyfleusterau hamdden ac adloniant mewn aneddiadau cyswllt. Fodd bynnag, mae graddfa fach datblygiadau o'r fath yn debygol o olygu y bydd | - | - | 0 | 0 | 0 | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | effeithiau'r polisi ar amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS yn fach iawn. | | | | | | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae'r polisi yn caniatáu'r posibilrwydd am safleoedd i dwristiaid; fodd bynnag, nid yw'r raddfa'n hysbys. | - | - | 0 | 0 | 0 | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | | Ll | P | + | + | + | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

15/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 9: Addysg a Sgiliau

**Amcan(ion):**

9. Creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu sylfaen sgiliau ac addysg Ceredigion.

**Is-amcanion:**

- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.
- Hyrwyddo darpariaeth addysg briodol i gynorthwyo pobl rhwng 16 a 19 oed.
- Hyrwyddo cofrestru â sefydliadau addysg bellach ac uwch.
- Gwella lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd.
- Hyrwyddo dysgu gydol oes.
- Cadw sgiliau yng Ngheredigion.
- Darparu cyfleusterau addysgol a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol.

| **Polisi** | **Natur yr effaith** | **Graddfa** | **Parhad** | **Byr** | **Canolig** | **Hirdymor** | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn ystyried Ceredigion yn ardal “lle bydd pobl yn dewis astudio” a “lle mae datblygu cynaliadwy yn diwallu anghenion addysgol”. Mae hyn yn cynnwys pob math o gyfleuster, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol ac addysgol. Mae Amcan 7 yr CDLl yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS hefyd. | | | | | + | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Trwy ganiatáu twf economaidd, hwylusir y cyfle i gadw ac ehangu sgiliau yng Ngheredigion. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Mae agweddau economaidd y polisi yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chadw sgiliau yn y sir. | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Mae canolbwyntio datblygiad mewn aneddiadau allweddol yn gwella mynediad i gyfleusterau addysgol, e.e. ysgolion ardal, prifysgolion a sefydliadau addysg drydyddol. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Mae canolbwyntio datblygiad mewn aneddiadau allweddol yn gwella mynediad i gyfleusterau addysgol, e.e. ysgolion ardal. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Dim effeithiau rhagweledig | - | - | 0 | 0 | 0 | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Dim effeithiau rhagweledig | - | - | 0 | 0 | 0 | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | Mynediad i dai fforddiadwy sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc aros yng Ngheredigion gyda'u sgiliau. | Ll | P | + | + | + | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

16/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 10: Y Gymraeg

**Amcan(ion):**

10b. Gwarchod a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Is-amcanion:**

- Hyrwyddo'r defnydd o arwyddion dwyieithog lle bo'n briodol.
- Cynnal ac, os yw'n bosibl, cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat.
- Gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu siaradwyr Cymraeg.

| **Polisi** | **Natur yr effaith** | **Graddfa** | **Parhad** | **Byr** | **Canolig** | **Hirdymor** | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi cymunedau ac | | | | | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | arwahanrwydd y sir ac yn cydnabod pwysigrwydd dwyieithrwydd. Mae Amcan 8 yr CDLl yn cefnogi cydnabod y Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae amcanion 4, 5, 6, 7 ac 11 yr CDLl hefyd yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. | | | | | | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r strategaeth yn darparu cyfleoedd i bobl leol i gael mynediad i dai, cyflogaeth a gwasanaethau lleol, gan ganiatáu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg felly i aros yn yr ardal hefyd. Bydd y ffordd y mae'r strategaeth yn canolbwyntio twf ledled y sir yn cryfhau rhwydwaith Ceredigion o gymunedau a hefyd y Gymraeg. | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Mae darparu ar gyfer twf tai yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Dylai hyn, yn ei dro, olygu bod y Gymraeg yn cael ei chryfhau gan fod pobl leol yn fwy tebygol o fod wedi cael eu haddysgu'n ddwyieithog. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Dim effeithiau rhagweledig | - | - | 0 | 0 | 0 | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Mae'r polisi'n darparu cyfle i bobl leol aros mewn ardaloedd gwledig, gan ganiatáu i siaradwyr Cymraeg felly aros yn yr ardal. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Mae'r polisi'n darparu cyfle i bobl leol fyw yn yr ardal, gan ganiatáu i siaradwyr Cymraeg felly aros yn yr ardal. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae'r polisi'n darparu cyfle i bobl leol fyw yn yr ardal, gan ganiatáu i siaradwyr | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg felly aros yn yr ardal. | | | | | | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | Mae'r polisi yn cefnogi amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS yn weithredol. | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau'r Gymraeg wrth gynllunio. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

15/05/2019

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 11: Trafnidiaeth

**Amcan(ion):**

Yn sgil y berthynas agos rhwng amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS ar dai a'r boblogaeth, penderfynwyd eu hasesu gyda'i gilydd.

11a. Lleihau'r angen i deithio a'i effaith a galluogi'r defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy a llesol o drafnidiaeth.

11b. Gwella hygyrchedd i wasanaethau i gymunedau a chysylltedd er lles yr economi.

**Is-amcanion:**

- Hyrwyddo strategaeth aneddiadau gynaliadwy a lleoli gwasanaethau a chyfleusterau yn briodol.
- Hyrwyddo gwaith o reoli trafnidiaeth a chynllunio teithio.
- Hyrwyddo iechyd a llesiant trwy greu mwy o gyfleoedd i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Integreiddio dulliau o drafnidiaeth heb gar a gwasanaethau o'r fath yn well.
- Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol.
- Gwella hygyrchedd i wasanaethau, yn enwedig i rannau difreintiedig o gymdeithas.

| Polisi | Natur yr effaith | Graddfa | Parhad | Byr | Canolig | Hirdymor | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy geisio lleihau'r angen i deithio a gwella mynediad. Mae amcanion 5, 6 ac 16 yr CDLl hefyd yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. | | | | | + | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ganolbwyntio ar gyfran fawr o dwf yn y canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig, a dylai hyn leihau'r angen i deithio a gwella hygyrchedd i wasanaethau yn gyffredinol. Hefyd, mae'n gwneud y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy dichonadwy. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Trwy ganolbwyntio datblygiad yn bennaf yn y | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | canolfannau gwasanaeth trefol a'r canolfannau gwasanaeth gwledig, dylai'r polisi leihau'r angen i deithio i'r gwaith ac i ddefnyddio gwasanaethau. Mae'n annog dulliau amgen o deithio hefyd. | | | | | | | |
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Dylai'r polisi leihau'r angen i deithio i'r gwaith ac i ddefnyddio gwasanaethau. Mae'n annog dulliau amgen o deithio hefyd. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Dylai'r polisi leihau'r angen i deithio i'r gwaith ac i ddefnyddio gwasanaethau. Mae'n annog dulliau amgen o deithio hefyd. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Bydd y polisi yn weddol niwtral o ran nifer y bobl y bydd yn rhaid iddynt deithio mewn cerbydau modur preifat gan y bydd lefel y datblygiad mewn | - | - | 0 | 0 | 0 | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | aneddiadau cyswllt yn gyfyngedig. | | | | | | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Mae'r polisi'n ceisio darparu tai mewn ardaloedd y mae eu hangen arnynt lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, gan leihau'r angen iddynt deithio felly. Mae'n galluogi'r difreintiedig i allu defnyddio gwasanaethau hefyd. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | Dim effeithiau rhagweledig | - | - | 0 | 0 | 0 | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

**Asesydd:**

Sarah Smyth (Cyngor Sir Ceredigion)

**Dyddiad** yr asesiad**:**

08/01/2009

**Pwnc yr AAS:**

Papur Pwnc 12: Cyflogaeth

**Amcanion:**

12. Annog economi fywiog ac amrywiol.

**Is-amcanion:**

- Hyrwyddo strategaeth aneddiadau gynaliadwy a lleoli gwasanaethau a chyfleusterau yn briodol.
- Hyrwyddo gwaith o reoli trafnidiaeth a chynllunio teithio.
- Hyrwyddo iechyd a llesiant trwy greu mwy o gyfleoedd i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Integreiddio dulliau o drafnidiaeth heb gar a gwasanaethau o'r fath yn well.
- Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol.
- Gwella hygyrchedd i wasanaethau, yn enwedig i rannau difreintiedig o gymdeithas.

| **Polisi** | **Natur yr effaith** | **Graddfa** | **Parhad** | **Byr** | **Canolig** | **Hirdymor** | **Tystiolaeth a chyfeiriad**<br><br>Gan gynnwys, lle bo'n briodol, a yw'r effeithiau'n uniongyrchol/anuniongyrchol; tebygol/annhebygol; ac yn amrywio dros amser. | **Mesurau lliniaru a gwella a awgrymir (*cynigiwyd y rheiny mewn ffont italig eisoes yn y cynllun*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn cefnogi amcan yr arfarniad | | | | | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | o gynaliadwyedd / AAS gan ei bod yn hyrwyddo “sir o gymunedau bywiog sydd wedi'i hymrwymo i wydnwch ei heconomi” ac yn “galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol”. Mae amcanion 2, 3, 4 a 5 yr CDLl yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. | | | | | | | |
| Strategaeth a Ffefrir | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS trwy ddarparu ar gyfer twf economaidd ac annog economi fywiog ac amrywiol ledled y sir. | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | Mae'r polisi yn ceisio cyflawni pob math o dwf rhagweledig, gan gynnwys twf economaidd. | Ll | P | ++ | ++ | ++ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol | Dyrennir y safleoedd mewn canolfannau gwasanaeth trefol, ynghyd â pholisïau caniataol ar gyfer defnyddiau nad ydynt o dan ddosbarth B neu ddatblygiadau nad ydynt yn addas ar gyfer eu lleoli ar safleoedd cyflogaeth. Mae'r polisi hefyd yn canolbwyntio mwyafrif y tai yn yr ardaloedd hyn, gan ddarparu cartrefi yn agos at y gwaith. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig | Dyrennir rhai o'r safleoedd mewn canolfannau gwasanaeth gwledig, ynghyd â pholisïau caniataol ar gyfer defnyddiau nad ydynt o dan ddosbarth B neu ddatblygiadau nad ydynt yn addas ar gyfer eu lleoli ar safleoedd cyflogaeth. Mae'r polisi hefyd yn | Ll | P | + | + | + | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | canolbwyntio swm sylweddol o dai yn yr ardaloedd hyn, gan ddarparu cartrefi yn agos at y gwaith. Bydd y datblygiad yn briodol i faint y gymuned y mae'n ei gweini. | | | | | | | |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | Mae'r polisi'n galluogi'r gwaith o ddatblygu cyflogaeth ar raddfa briodol i ddigwydd mewn aneddiadau cyswllt. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | Trwy ddiwallu amrywiaeth o anghenion tai, bydd anghenion yr economi leol hefyd yn cael eu diwallu a byddant yn darparu ar gyfer gweithlu cryf ac amrywiol. | Ll | P | + | + | + | | |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | | Ll | P | + | + | + | | Mae DM01 yn ystyried goblygiadau cynlluniau ar y Gymraeg. |

# Atodiad 4: Gwahoddedigion i Weithgor Cynaliadwyedd Ceredigion

| |
|---|
| Antur Teifi |
| Aelod Cabinet Rheoli Carbon, Cynaliadwyedd, Trafnidiaeth ac Iechyd Meddwl |
| Cadw |
| CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed |
| Cyngor Sir Ceredigion – Ecolegydd |
| Cyngor Sir Ceredigion – Draenio Tir, Priffyrdd |
| Dŵr Cymru |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Prifysgol Aberystwyth |

# Atodiad 5: Gwybodaeth Sylfaenol

## 1. Gwybodaeth sylfaenol

1.1.1 Mae'r papur hwn yn crynhoi rhywfaint o'r dystiolaeth allweddol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ac yn nodi'r effeithiau tebygol ar Gymru a Cheredigion. Mae rhai enghreifftiau o fesurau addasu i'r newid yn yr hinsawdd wedi eu cynnwys hefyd gan fod hyn yn faes arbennig o bwysig i awdurdodau cynllunio lleol ei ystyried. Mae'r testun llifogydd wedi'i gynnwys yn y papur hwn o ystyried y cysylltiadau cryf rhwng y newid yn yr hinsawdd a'r nifer fwy o achosion o lifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol.

1.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys gwybodaeth a data meintiol ac ansoddol sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y cynllun. Mae'n darparu'r sylfaen ar gyfer rhagfynegi a monitro effeithiau amgylcheddol ac yn helpu i nodi problemau amgylcheddol a ffyrdd amgen o ymdrin â nhw. Defnyddiwyd dull ymarferol o gasglu gwybodaeth sylfaenol. Casglwyd gwybodaeth sylfaenol i ddarparu sylfaen dystiolaeth gyfoes ar gyfer problemau amgylcheddol, rhagdybio effeithiau a monitro i helpu i ddatblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae hon yn broses ailadroddol.

## 2. Manylir yr wybodaeth sylfaenol allweddol isod:

2.1.1 Papurau pwnc Cynllun Datblygu Lleol 2011 (y fersiwn a gyflwynwyd)
Mae'r papurau pwnc hyn yn ffurfio'r dystiolaeth fwyaf cyfoes o ran y maes polisi penodol ac yn darparu crynodeb o'r dogfennau a'r dystiolaeth allweddol a lywiodd CDLl Ceredigion o ran pynciau penodol o dan y penawdau canlynol. Maent i'w gweld ar:
https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=17842

- Datblygu cynaliadwy, llifogydd a newid hinsawdd
- Gwastraff

- Mwynau
- Yr amgylchedd: adeiledig
- Diogelu'r amgylchedd
- Yr amgylchedd: cyfleustodau
- Arfordirol
- Twristiaeth
- Hamdden, adloniant, iechyd a llesiant
- Addysg
- Tirwedd
- Y Gymraeg
- Manwerthu
- Cyflogaeth a'r economi wledig
- Tai
- Ynni
- Trafnidiaeth
- Cadwraeth natur

2.1.2 Atodiad 7 (‘Gwybodaeth Sylfaenol’) o’r Adroddiad Terfynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Ebrill 2013)

2.1.3 Crynhodd y papurau pwnc hyn y materion allweddol a oedd yn ymwneud â phynciau'r CDLl ar y pryd o dan y penawdau canlynol ac maent ar gael ar: https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=47518&langtoken=eng

2.1.4 Ymhlith y meysydd pwnc, mae:

- Newid hinsawdd a llifogydd
- Pridd, aer a dŵr
- Asedau materol
- Bioamrywiaeth
- Tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol
- Y boblogaeth a thai
- Llesiant ac iechyd dynol

- Hamdden, adloniant a thwristiaeth
- Addysg a sgiliau
- Y Gymraeg
- Trafnidiaeth
- Cyflogaeth

2.1.5 Adroddiadau Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

Mae cyfarwyddeb yr AAS yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyngor yn monitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion cynaliadwyedd a nodir yn adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS. Mae ffurflenni monitro'r arfarniad o gynaliadwyedd yn ffurfio rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol. Cynhaliwyd AMBau ar gyfer CDLl Ceredigion bob blwyddyn yn 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018. Nodir nad ystyrir rhai o'r dangosyddion monitro bob blwyddyn a bod angen diweddaru rhai ffynonellau/dangosyddion data yn unol â'r newidiadau a fu ers mabwysiadu'r fframwaith gwreiddiol.

2.1.6 Papurau Diweddaru Pynciau Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (cyfredol) 2019 Mae gwaith wedi dechrau ar gyfres o bapurau pwnc i lywio adolygiad o'r cynllun, a chyhoeddir y rhain ar y cyd â'r Strategaeth a Ffefrir. Ymhlith y papurau mae tabl diweddaru papur pwnc sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi digwydd ers 2011 ac sy'n nodi'r materion a godwyd o ran newidiadau mewn polisi, tystiolaeth neu wybodaeth newydd neu broblemau. Mae papurau diweddaru pwnc yn ymdrin â meysydd polisi allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Gwastraff
- Mwynau
- Tai
- Twf tai a'r boblogaeth
- Y Gymraeg (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg)
- Twristiaeth
- Manwerthu
- Cyflogaeth ac economi wledig

- Darpariaeth tai
- Strategaeth Aneddiadau
- CDLl a llesiant

Cyhoeddir tablau diweddaru papur pwnc fel papurau cefndirol i'r Strategaeth a Ffefrir.

2.1.7 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus – Cyngor Sir Ceredigion – Gwybodaeth Amgylcheddol ar gyfer Asesiadau Llesiant – Pecyn Tystiolaeth (2016) (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae'r wybodaeth hon yn darparu gwybodaeth amgylcheddol gyfoes a phenodol i Geredigion o dan y penawdau canlynol:

- Rheoli ein dyfroedd
- Perygl o lifogydd
- Amrywiaeth ein tirweddau
- Gwydnwch ein hecosystemau
- Rheoli ein moroedd a'n harfordir
- Coedwigoedd, coetiroedd a choed
- Ein mannau gwyrdd
- Hamdden, mynediad a thwristiaeth
- Priddoedd ac amaethyddiaeth
- Perchenogaeth a rheolaeth tir Cyfoeth Naturiol Cymru

# Geirfa

**Asesiad addas**

Mae hyn yn rhan o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Os gallai'r cynllun, yr CDLl yn yr achos hwn, gael effaith sylweddol ar safle gwarchodedig, yna bydd angen asesiad priodol. Mae hyn yn sicrhau yr ystyrir dadansoddiad llawnach o unrhyw effeithiau posibl.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan Erthygl 6 (3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Cynhelir y gwaith hwn ar y cyd â'r arfarniad o gynaliadwyedd / AAS, ond caiff ei adrodd ar wahân. Proses yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n gwerthuso unrhyw effeithiau posibl y gallai datblygiad arfaethedig eu cael ar safleoedd gwarchodedig ar gyfer cadwraeth.

**Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Asesiad sy'n archwilio p'un a fydd Strategaeth a Ffefrir yr CDLl yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gyfanrwydd nodweddion safle y cafodd ei ddynodi ar eu cyfer. Yna, caiff y broses ei hailadrodd ar y cam adneuo pan dynnir sylw at unrhyw angen am asesiad priodol ac fe'i cynhelir.

**Adroddiad cychwynnol ar yr arfarniad o gynaliadwyedd**

Mae'r adroddiad cychwynnol ar yr arfarniad o gynaliadwyedd yn crynhoi canfyddiadau gwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS fel rhan o broses yr CDLl ac fe'i cyhoeddir ar y cyd â'r CDLl Cyn-adneuo. Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiad yr AAS, sy'n ofynnol fel rhan o'r AAS.

**Cynllun Datblygu Lleol**

Cynllun statudol yw'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n gosod polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y sir am oddeutu 15 blynedd. Yng Ngheredigion, bydd hyn tan 2022. Cyflwynwyd Cynlluniau Datblygu Lleol yn 2004 ar ôl cyflwyno Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

**Awdurdod cynllunio lleol**

Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn darparu swyddogaeth cynllunio'r awdurdod lleol ac yn rheoleiddio cyfradd a natur datblygiad yn unol â'i gynllun datblygu mabwysiedig a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

**Amcan**

Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan fanylu cyfeiriad dymunol y newid mewn tueddiadau.

**Cynlluniau, polisïau a rhaglenni**

Mae angen cwblhau adolygiad trylwyr o gynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol yn ystod rhan o Gam A proses yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS, sef y cam ‘cwmpasu’. Defnyddir yr adolygiad hwn i lywio proses yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS, i sicrhau y caiff y cynllun ei lywio gan wybodaeth gyfoes ac y mae hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

**Cyn-adneuo**

Mae'r Adroddiad Cyn-adneuo yn rhan o broses yr CDLl a gellid cyfeirio ato hefyd fel y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n nodi gweledigaeth yr awdurdod, ei amcanion cyffredinol, yr opsiynau gofodol strategol a ystyrir fel rhan o broses yr CDLl, a hefyd ei strategaeth ofodol a ffefrir.

**Strategaeth a Ffefrir**

Rhan o'r dogfennau cyn-adneuo sy'n amlinellu strategaeth a ffefrir yr awdurdod lleol ar gyfer twf neu newid.

**Canolfannau gwasanaeth gwledig**

Aneddiadau yng Ngheredigion sydd eisoes â chrynodiad o nifer o wasanaethau arferol sylfaenol neu hanfodol mewn un lleoliad ac sy'n gweithredu fel canolfan ar gyfer aneddiadau cyfagos llai o faint sydd â llai o wasanaethau yn ogystal ag ar gyfer preswylwyr mewn anheddau gwasgaredig neu aneddiadau a gynigir am dwf sy'n gysylltiedig â datblygiadau arfaethedig, megis ysgolion ardal, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, datblygiadau cyflogaeth ac ati, lle mae gwasanaethau a chyfleusterau eisoes yn bodoli neu maent yn debygol o fod yn gynaliadwy o'u cymharu ag aneddiadau eraill yn yr ardal.

**Arfarniad o gynaliadwyedd**

Proses yw arfarniad o gynaliadwyedd sy'n ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy'r CDLl ac sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewrop. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal gwaith ymchwil ac asesu materion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy wrth greu'r CDLl.

**Adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd**

Fersiwn ddiweddaredig o'r adroddiad cychwynnol ar yr arfarniad o gynaliadwyedd yw'r adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd, a gyhoeddir ynghyd â'r CDLl Adneuo Statudol. Mae'n asesu polisïau manwl y Cynllun Adneuo yn ogystal ag unrhyw newidiadau sylweddol a wnaed ers yr ymgynghoriad ar yr CDLl Cyn-adneuo. Mae'r adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd yn cwmpasu adroddiad yr AAS ac fe'i cyhoeddir ar y cyd â datganiad yr AAS, sy'n ofynnol fel rhan o'r AAS.

**Adroddiad cwmpasu**

Mae'r adroddiad cwmpasu yn crynhoi canfyddiadau Cam A o broses yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS ac yn amlinellu materion fel nodi cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill, gwybodaeth sylfaenol, a materion amgylcheddol (problemau a chyfleoedd).

**Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn ffurfio rhan o broses yr arfarniad o gynaliadwyedd / AAS ac yn ceisio integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn y gwaith o baratoi'r CDLl. Dylai'r broses hon ddarparu gwarchodaeth i'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae ymgorffori'r AAS yn yr arfarniad o gynaliadwyedd yn arferol.

**Polisi strategol**

Polisi lefel uchel cyffredinol a ddylunnir i gyflawni nodau eang gweledigaeth ac amcanion yr CDLl.

**Opsiynau polisi strategol**

Ymagweddau polisi ac opsiynau amgen a ystyrir ar gyfer datblygu polisïau strategol.

**Ardal Chwilio Strategol**

Ardal y nodir ar lefel strategol fod ganddi'r nodweddion cyffredinol sy'n ei chaniatáu i letya datblygiadau ffermydd gwynt mawr.

**Cynllun Adneuo Statudol**

Mae'r Cynllun Adneuo Statudol yn rhan o broses yr CDLl ac yn ddrafft llawn o'r CDLl. Mae'n cyflwyno'r Adroddiad Cyn-adneuo neu'r Strategaeth a Ffefrir fel y'u cytunwyd neu eu diwygiwyd, cynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid, adfywio neu warchod, a safleoedd penodol i'w defnyddio at ddibenion penodol a pholisïau a chynigion penodol eraill. Gellid hefyd cyfeirio at y Cynllun Adneuo Statudol fel y Cynllun Adneuo.

**Canolfannau gwasanaeth trefol**

Yng nghyd-destun canolfannau gwasanaeth trefol Ceredigion, dyma'r chwe phrif dref yng Ngheredigion: Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lefel uchel, yn ogystal â rhai beunyddiol, ar gyfer preswylwyr eu cefnwlad eu hunain a'r tu hwnt.